**RHEOLWR DATBLYGU CWVYS**
**Disgrifiad o'r Rôl a Manyleb Person**

**DIBENION**
- Rheoli prosiect Cronfa Ymyrraeth Gynnar Ieuenctid y Swyddfa Gartref
- Rheoli prosiectau gan ddefnyddio arddull consortia (gyda CWVYS fel y prif bartner)
- Cefnogi/datblygu'r cynllun hwn ar draws platfformau prosiect eraill CWVYS
- Cynrychioli CWVYS ar lefelau gweithredol
- Cefnogi cyfleoedd datblygu ar gyfer y cyrff sy'n aelodau o CWVYS

**AMCANION**
- Cynorthwyo gyda chyflwyniad gweithredol Cynllun Gweithredu CWVYS
- Cynrychioli CWVYS ar gyrff partneriaeth a chydweithredol
- Dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr yn ôl yr angen

**TASGAU**
**Cyfrifoldebau Rheoli Llinell**
- Gweithredu fel rheolwr llinell staff, gwirfoddolwyr, interniaid a myfyrwyr yn ôl yr angen

**Datblygiad busnes**
- Magu perthnasau gwaith allweddol gyda phartneriaid ac arianwyr ar ran CWVYS gyda'r nod o sicrhau adnoddau cynaliadwy
- Ymchwilio ac ysgrifennu ceisiadau am ariannu i gefnogi nodau cynaliadwyedd CWVYS ac mewn perthynas â thargedau penodol, fel y pennir gan y Prif Weithredwr
- Ysgrifennu, datblygu a gweithredu prosiectau consortia gyda CWVYS fel y prif bartner
- Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gweithio fel consortia
- Dylunio, cyflwyno a datblygu strategaeth i ennyn diddordeb y sector preifat i gefnogi'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru
- Ymchwilio ac archwilio i gyfleoedd posib ar gyfer gweithgarwch masnach CWVYS

**Defnyddio data**
- Defnyddio ymchwil a data mapio ar y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol
- Creu templed i goladu data yn seiliedig ar dystiolaeth (gan gynnwys nifer y sefydliadau; datblygu'r gweithlu; effaith ar fywydau pobl ifanc)
- Darparu dadansoddiad rheolaidd o'r sefyllfa o fewn y sector
- Rhannu canfyddiadau gydag aelodau a budd-ddeiliaid eraill

**Marchnata, Cyfathrebu a Digwyddiadau**

Gyda chydweithwyr CWVYS:
- Cyd-ddylunio polisi marchnata a chyfathrebu cydlynol ar gyfer prosiectau a gyflwynir gan CWVYS a rhoi'r polisi hwnnw ar waith

- Gweithio'n greadigol i godi proffil a phresenoldeb prosiectau, digwyddiadau cysylltiedig a CWVYS ar draws yr holl blatfformau sydd ar gael
- Cynyddu proffil a chyrhaeddiad CWVYS ymysg mudiadau, asiantaethau ac unigolion sydd yn 'allanol i'r sector gwaith ieuenctid'

**Polisi ac arferion gwaith ieuenctid**

- Bod yn rhagweithiol ac yn ymwybodol o ddatblygiadau parhaus ac ymrwymo â/dylanwadu ar drafodaethau polisi ieuenctid, yn ogystal â'r effaith ar Aelodaeth CWVYS a'r sector ehangach

**Cynrychiolaeth**

- Gweithgarwch yn ymwneud â datblygiad

**<u>MANYLEB PERSON</u>**

**Hanfodol**

**Gwybodaeth**

- Dealltwriaeth glir ac amlwg o wasanaethau ieuenctid, rhwydweithiau, polisïau a strwythurau'r trydydd sector
- Y gallu i drafod ac ymgynghori ar amrediad eang o faterion yn ymwneud â'r gwasanaeth ieuenctid
- Parodrwydd i ymrwymo mewn modd cadarnhaol gyda holl sectorau'r gwasanaeth gwaith ieuenctid
- Dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â datblygu busnes
- Sensitifrwydd at ac ymwybyddiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd Cymru
- Y gallu i hwyluso cyfarfodydd a phartneriaethau i safon uchel
- Y gallu i gwblhau tasgau i derfynau amser tynn

**Profiad**

- Rheoli a datblygu prosiectau
- Profiad amlwg o ysgrifennu ceisiadau ariannu llwyddiannus
- Profiad o weithio mewn partneriaeth ac o roi ymagweddau a systemau cydweithredol ar waith
- Rheoli staff a gwirfoddolwyr
- O leiaf 3 blynedd o brofiad diweddar o weithio yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru

**Sgiliau**

- Sgiliau rheoli prosiect hynod effeithiol
- Sgiliau trefnu o'r radd flaenaf
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog
- Y gallu i weithio'n dda mewn tîm
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun i gyflawni targedau a gytunwyd arnynt
- Gallu clir i geisio ac ecsbloetio cyfleoedd datblygu busnes, gan gynnwys sgiliau ysgrifennu ceisiadau o ansawdd uchel
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau o safon dda
- Y gallu i fod yn hyblyg o ran oriau gwaith (mae'n bosibl y bydd angen gweithio gyda'r nos ar adegau)
- Ar gael i deithio ledled Cymru
- Ymagwedd broffesiynol
- Sgiliau TG da e.e. e-bost, y we, cronfeydd data a thaenlenni

- Ymddwyn mewn modd sy'n cyd-fynd â gofynion cyflogai CWVYS

**Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg
- Wedi'ch addysgu ar lefel diploma/gradd neu gyfwerth ym maes Gwaith Ieuenctid neu faes Ieuenctid a Chymuned

**TELERAU**

**Oriau:** 37 yr wythnos

**Cyflog/Amodau:** O fewn Graddfa Cyflog NJC Pwynt 31-39; Ebrill 2018 (£28,221 i £35,229)

Ystyrir secondiad

Telir costau teithio a threuliau ar gyfraddau priodol.

**Pensiwn:** Cewch eich ymrestru ar bensiwn yn awtomatig trwy CWVYS

**Hyd y cytundeb:** Tymor Penodol. Ionawr 2019-Mawrth 2020

**Yn atebol i:** Prif Weithredwr CWVYS

**Man gweithio:** Fel bo'n briodol ledled Cymru e.e. edrychir yn ffafriol ar weithio o adref a/neu o'r swyddfa yng Nghaerdydd

**Teithio:** Y gallu i deithio ledled Cymru a gyda'r defnydd o gar
Y gallu a'r parodrwydd i deithio y tu allan i Gymru (y DU a gweddill Ewrop)

CWVYS
Rhagfyr 2018